

RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 5) (CYMRU) (DIWYGIO) 2021

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. Disgrifio ac esbonio effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, fel y disgrifiwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i berchennog ysgol neu Sefydliad Addysg Bellach (SAB), yn unol â'r eithriadau a nodir yn y Rheoliadau, beidio â gadael i ddisgyblion ddod ar dir yr ysgol, na gadael i fyfyrwyr ddod ar dir SAB, yng Nghymru o'r diwrnod pan ddaw'r Rheoliadau i rym hyd 21 Chwefror 2021. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n agored i niwed nac i blant gweithwyr hanfodol, nac i'r dysgwyr hynny sy'n sefyll asesiadau neu arholiadau.

Gwneir y Rheoliadau mewn ymateb i fgythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yn sgil achosion a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn Covid-19 neu'r coronafeirws.

Cyngor Prif Swyddog Meddygol Cymru yw bod angen cymryd camau pellach i liniaru trosglwyddiad parhaus Covid-19 ac atal capasiti'r GIG yng Nghymru rhag bod o dan straen ac, o bosib, rhag cael ei lethu. Bwriedir i'r Rheoliadau hyn atal marwolaethau Covid-19 uniongyrchol a marwolaethau sy'n gysylltiedig â diffyg argaeledd gwasanaethau'r GIG yn sgil trosglwyddiad eang y firws mewn cymunedau.

Ar 4 Ionawr 2021, cytunodd pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU fod y DU bellach ar y lefel risg uchaf, sef Lefel 5 y Cydgyngor Biddiogelwch. Yng ngoleuni'r penderfyniad hwnnw, cytunodd Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â CLILC a Cholegau Cymru, y dylai'r holl ysgolion, colegau ac ysgolion annibynnol newid i ddysgu ar-lein.

Ar 7 Ionawr, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r dull hwn o weithredu yn parhau, ond y byddai'n cael ei gysoni â'r cylch adolygu teirwythnosol. Oni cheir gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion coronafeirws cyn yr adolygiad hwnnw ar 29 Ionawr, bydd ysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i gynnig darpariaeth ar-lein hyd ddiwedd hanner tymor mis Chwefror.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi sail gyfreithiol i'r penderfyniad hwnnw, ac i'r penderfyniad dilynol i gysoni hyn â'r adolygiad o'r cyfyngiadau cymdeithasol ehangach yng Nghymru.

Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol, Hydref 2020

Yn rhan o'i gyfres o adroddiadau *A yw Prydain yn Decach?* mae'r CCHD yn adrodd ar y modd y mae'r pandemig wedi effeithio ar wahanol grwpiau. Mae rhai o'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â chau ysgolion a dysgu o bell wedi'u hamlinellu isod.

"Ceir perygl gwirioneddol y byddwn yn creu 'cenhedlaeth COVID' goll wth i bobl ifanc gollu eu haddysg a wynebu'r ergyd fwyaf o ran colli swyddi.

"Mae'r gwahaniaethau o ran cymorth i ddysgu o bell yn ystod y pandemig yn bygwth lledu'r bwloch anghydraddoldeb i rai sydd eisoes yn perfformio'n waelach na'u cyfoedion, yn enwedig bechgyn, disgyblion du, rhai disgyblion sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, disgyblion sydd angen cymorth mewn addysg a rhai sydd dan anfantaes am resymau economaidd-gymdeithasol.

"Mae'r ymateb i bandemig y coronafeirws wedi creu bylchau yn addysg y rhan fwyaf o blant ym Mhrydain. Mae'r bylchau hyn yn bygwth cyrhaeddiad ar lefel gynradd ac uwchradd.

"Mae bechgyn yn parhau i berfformio'n waelach na merched, ac mae cyrhaeddiad plant ag AAAA/ACY/ADY yn llawer is na rhai sydd heb yr anghenion hynny.

"Mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion du yn is na grwpiau lleiafrifol ethnig eraill, er mai disgyblion sy'n Sipsiwn, yn Roma ac yn Deithwyr, sy'n parhau i fod â'r lefelau cyrhaeddiad isaf o gryn dipyn o blith unrhyw grŵp ethnig.

"Mae plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, neu o ardaloedd o amddifadedd, yn perfformio'n is na'r cyfartaledd. Mae perygl i'r grwpiau hyn fynd ymhellach ar ei hôl hi. Ceir anghydraddoldeb hefyd o ran faint o amser sy'n cael ei dreulio yn dysgu gartref, gydag awgrym bod bechgyn yn treulio llai o amser yn dysgu gartref na merched.

"Dengys ymchwil nad oedd gan 20% o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn y DU unrhyw fynediad at gyfrifiadur yn y cartref, o gymharu â 7% o blant eraill.

"Yng Nghymru, ceir hefyd bryderon nad oes digon o sylw'n cael ei roi i ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion Cymraeg ond sydd heb rieni sy'n siarad Cymraeg."

Rydym yn derbyn yn llwyr fod unrhyw newid i drefniadau addysg wedi cael amrywiaeth eang o effeithiau ar wahanol grwpiau. Ar hyn o bryd, mae'r effeithiau hyn wedi'u cydbwysu yn erbyn yr angen i ddiogelu iechyd holl ddinasyddion Cymru.

Rydym wedi nodi rhai effeithiau penodol fesul nodwedd warchoddedig, ac wedi'u rhestru isod.

Cofnod o'r effeithiau fesul nodwedd warchoddedig:

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r Effeithiau?
Oedran	<p>Gall colli'r ysgol a'r drefn arferol gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc - mae Aseiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) wedi cael ei gynnal ar wahân.</p>	<p>Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau'n effeithio arnynt yn fwyaf uniongyrchol.</p>	<p>Mae AEHP llawn ar gael ar wahân.</p>
	<p>Gall yr angen i ddarparu gofal plant a rhoi cymorth ychwanegol i'w plant wrth ddysgu gartref gael effaith andwyol ar oedolion oed gwaith sy'n rhieni.</p> <p>Bydd rhai o'r rhieni hyn wedi gorfod defnyddio'u gwyliau neu hyd yn oed chwilio am swydd arall lle na fu modd gweithio gartref, a allai yn ei dro arwain at gynnydd mewn aelwydydd incwm isel.</p>	<p>Mae cau'r ysgolion wedi golygu bod llawer o rieni sy'n gweithio nad ydynt yn weithwyr allweddol wedi gorfod gwneud trefniadau gyda'u cyflogwyr i newid patrymau a lleoliadau gwaith.</p>	<p>Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddosbarthu gwybodaeth a chynghor i rieni, er enghraifft ymgyrch <i>Magu plant. Rhowch amser iddo</i>, a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; ein Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta a'n Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Gofal Plant.</p>
	<p>Gall yr angen i roi cymorth ychwanegol ar ffurf gofal plant neu helpu plant i ddysgu gartref gael effaith andwyol ar bobl hŷn</p>	<p>Galwyd ar neiniau a teidiau i helpu gyda gofal plant a dysgu gartref lle nad oedd rhieni a oedd yn gweithio yn gallu</p>	

	sydd wedi ymddeol ac sy'n rhoi gofal plant i'w hwyrion/hwyrresau.	gwneud trefniadau eraill.	
Anabledd	Gall peidio mynd i'r ysgol neu'r coleg gael effaith fwy andwyol ar blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol neu arbennig.	Mae dysgwyr sy'n agored i niwed yn ddysgwyr a nodir gan ddarparwyr addysg neu awdurdodau lleol (gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol plant), yn rhai a allai elwa o barhau i fynd i'r ysgol neu'r coleg ar sail amser llawn.	Gall plant a phobl ifanc a nodir yn rhai sy'n agored i niwed, neu a chanddynt ddatganiad AAA barhau i fynychu eu hysgol neu eu coleg arferol fel o'r blaen. Nodir yr eithriad hwn yn y Rheoliadau. Mae hyn yn lliniaru rhai o effeithiau peidio cael mynediad at yr offer a'r gefnogaeth arferol gan yr ysgol neu'r coleg, ond ni all ddatrys yn llawn y problemau sy'n deillio o'r gostyngiad mewn rhyngweithiau cymdeithasol ac, o bosib, y newidiadau i rwtîn.
	Gallai'r angen i ddarparu gofal plant a chymorth ychwanegol tra bo'r ysgol ar gau gael effaith andwyol anghymesur ar rieni a gofawyr ag anableddau.	Gall anableddau corfforol ac anableddau dysgu amharu ar allu rhiant i gyflawni rôl rhoddwr gofal ac addysgwr ar sail amser llawn, hyd yn oed os yw hynny am gyfnod byr.	
Ailbennu Rhywedd	Dim.		
Beichiogrwydd a mamolaeth	Gall yr angen i ddarparu gofal plant ychwanegol a chymorth i ddysgu gartref gael effaith andwyol ar fenywod beichiog a rhai â phlant ifanc iawn yn ogystal â phlant hŷn sy'n mynd i'r ysgol neu'r coleg.	Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: <i>Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol</i> , Hydref 2020	Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddsbarthu gwybodaeth a chynghor i rieni, er enghraifft ymgyrch Magu plant. Rhowch amser iddo, a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; ein Grŵp Gweithredu Arbenigol ar

	<p>Mae'r rhai sydd wedi dechrau rhoi gofal di-dâl yn fwy tebygol o fod yn fenywod, yn iau, a chyda phlant ifanc. Maent wedi wynebu gofynion sy'n cystadlu'r naill â'r llall, sydd wedi herio eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u lles, ac wedi rhoi straen ychwanegol ar eu perthnasoedd, eu sefyllfa ariannol a'u gallu i gyflawni gwaith cyflogedig.</p>		<p>Rianta a'n Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Gofal Plant.</p>
Hil	<p>Efallai y bydd yr angen i ddysgu o bell yn cael effaith andwyol ar rai dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys disgyblion Sipsi, Roma a Theithwyr, yn enwedig o ran cael mynediad at dechnoleg.</p>	<p>Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: <i>Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol</i>, Hydref 2020</p>	<p>Yn rhan o raglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu', mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.</p> <p>Yn ogystal â hyn, darparwyd £3m yn ychwanegol i gefnogi'r dysgwyr hyn yn 2020.</p> <p>Hefyd, anogir ysgolion a lleoliadau i sefydlu ystod o sianelau ar gyfer cyfathrebu â rhieni/gofalwyr, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ddigidol i'r rhieni/gofalwyr hynny sydd heb fynediad at dechnoleg.</p>

Crefydd, cred a diffyg cred	Mae'n bosibl y bydd cau ysgolion a cholegau'n effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgol neu goleg sy'n grefyddol ei ch/gymeriad, os mai'r ysgol neu goleg yw eu hunig fynediad at addoliad ar y cyd neu ddysgeidiaeth arall sy'n bwysig i'r unigolion hynny.	Mae'n bosibl mai'r ysgol neu'r coleg fydd yr unig gyfle i rai plant a phobl ifanc gadw arferion crefyddol gyda'u cyfoedion.	Drwy Hwb, llwyfan dysgu digidol Cymru, caiff dysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir fynediad at amrywiaeth o offer dysgu ar-lein. Gall fideo-gynadledda gynnig profiad rhyngweithiol a chyfle i gadw arferion crefyddol ar y cyd ag eraill drwy'r ysgol neu'r coleg, a hynny mewn modd diogel a hygyrch.
Rhyw / Rhywedd	Mae menywod yn fwy tebygol na'u partneriaid o ysgwyddo baich y gofal plant ychwanegol a'r trefniadau i ddysgu gartref, hyd yn oed os ydynt yn gyflogedig.	Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: <i>Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol</i> , Hydref 2020	Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddosbarthu gwybodaeth a chynghor i rieni, er enghraifft ymgyrch <i>Magu plant. Rhowch amser iddo</i> , a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; ein Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta a'n Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Gofal Plant.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim.		
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim.		

Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Mae asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) wedi cael ei gynnal ar wahân.	Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau'n effeithio arnynt yn fwyaf uniongyrchol.	Mae AEHP llawn ar gael ar wahân.
Aelwydydd incwm isel	Gall cau ysgolion a cholegau gael effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr o aelwydydd incwm isel, lle cyfyngir ar fynediad at y rhyngrwyd a dyfeisiau digidol.	Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19 <i>Defnydd o'r rhyngrwyd a sgiliau digidol</i>	Yn rhan o raglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu', mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Yn ogystal â hyn, darparwyd £3m yn ychwanegol i gefnogi'r dysgwyr hyn yn 2020. Hefyd, anogir ysgolion a lleoliadau i sefydlu ystod o sianelau ar gyfer cyfathrebu â rhieni/gofalwyr, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ddigidol i'r rhieni/gofalwyr hynny sydd heb fynediad at dechnoleg.
	Mae'n bosibl na fydd gan rieni o aelwydydd incwm isel adnoddau deallusol digonol i gefnogi eu plant wrth iddynt ddysgu gartref.		

			mewn modd diogel a hygyrch.
	Gallai cau ysgolion gael effaith andwyol ar ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.	Mae rhai teuluoedd yn dibynnu ar y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i fodloni anghenion iechyd a maeth eu plentyn.	<p>Atgoffir awdurdodau lleol fod dyletswyddau cyfreithiol yn gysylltiedig â darparu prydau ysgol am ddim yn dal i fod yn berthnasol drwy gydol y cyfnod pan fo'r ysgolion ar gau.</p> <p>Yn ogystal â hynny, wrth drefnu i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddysgwyr cymwys, bydd yn rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau na all unrhyw un, ac eithrio'r sawl a awdurdodir o dan y ddeddfwriaeth, adnabod dysgwr fel dysgwr sy'n derbyn pryd ysgol am ddim.</p>

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau'n amharu ar hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn gyfiawn er mwyn atal clefydau heintus rhag lledaenu ac/neu fod yr amhariaeth yn cael ei chaniatáu er mwyn ceisio cyflawni nod dilys, sef gwarchod iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn amharu ar Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barchu bywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chysylltu ag eraill) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (gwarchod eiddo).

Mae pob un o'r hawliau hyn yn hawliau amodol, sy'n golygu y caiff Gweinidogion Cymru amharu â gweithrediad yr hawliau hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd os oes angen, er budd diogelwch y cyhoedd, neu er mwyn diogelu iechyd. Mae'n rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a'r gofynion hynny ar y sail eu bod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae angen taro cydbwysedd rhwng unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn hefyd a rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae'r Erthygl honno'n taro cydbwysedd rhwng yr angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws a hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau i fod yn gymesur â'r angen i leihau cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws, gan roi ystyriaeth i'r dystiolaeth wyddonol.